Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd

Cyllideb

2027-28

Tachwedd 2026



Rhagor o wybodaeth:
senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd

Cyllideb

2027-28

Tachwedd 2026

Rhagor o wybodaeth:
senedd.cymru



Cynnwys

1. Cyflwyniad 6
2. Y gyllideb 7
3. Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig 9
4. Staffio 11
5. Cyllidebau nad ydynt yn rhai staff 13
6. Diwygio'r Senedd 14
7. Bae 32 16
8. Cronfa Prosiectau 19
9. Cyllidebau nad ydynt yn rhai arian parod 21
10. Cynaliadwyedd 22
11. Cyfathrebu ac Ymgysylltu 23
12. Aelodau 25
13. Cwmpas y gyllideb 27
Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb 29
Atodiad 2: Manylion y gyllideb 31

1. Cyflwyniad

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir y gyllideb ar gyfer Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb sylweddol. Maent yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cytuno ar drethi yng Nghymru. Yn ei dro, mae'r Comisiwn yn darparu'r sgiliau arbenigol, y gwasanaethau cymorth a'r adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli.

2. Y gyllideb

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2027-28 yw £109.296 miliwn a bydd yn darparu ar gyfer:

- Gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, (y gyllideb weithredol);
- Un gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer gwaith rhaglen mawr penodol;
    - Bae 32 – swyddfeydd y Comisiwn;
- Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);
- Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;
- Y gyllideb ar gyfer costau clercio, gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Safonau;
- Y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (Cost Cyllid Pensiwn) a dibrisiant / amorteiddio asedau hawl i ddefnyddio o dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EF;
- Darpariaethau dadfeiliadau sy'n gysylltiedig ag adeilad dros dro o dan y pennawd Gwariant Cyfalaf a Reolir yn Flynyddol.

Y gyllideb ar gyfer 2027-28 yw'r gyntaf i gynrychioli ehangu'r Senedd o fewn un gyllideb weithredol ac mae'n adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed hyd yma mewn perthynas â sut y bydd Busnes y Senedd yn cael ei gynnal ar gyfer tymor y Senedd hon.

Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio cyflwyno cyllideb sy'n cynrychioli gwerth am arian i'r cyhoedd, gan gadw'n agos at ddatganiad egwyddorion Pwyllgor Cyllid y Senedd, gan sicrhau bod digon o adnoddau i'r Senedd allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol.

Mae'r prosiect i ddarparu swyddfeydd i'r Aelodau, staff, y Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill ar yr ystad, ar ôl 2032, yn mynd rhagddo, yn symud yn gyflym ac yn ddeinamig. Gofynnir i'r Comisiwn lofnodi'r Achos Busnes Llawn ddiwedd

2026; mae cyllideb 2027-28 yn tybio, ar sail y senario gwaethaf un, y bydd holl ddefnyddwyr adeilad Tŷ Hywel yn cael eu symud i adeilad arall yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu ac mae'n cynnwys y costau cysylltiedig disgwyliedig o wneud hynny. Mae cyllidebau'r blynyddoedd i ddod yn tynnu sylw at y disgwyliad y bydd angen i'r Comisiwn dalu am ffitio mewnol yr adeilad unwaith y bydd y gwaith strwythurol wedi'i gwblhau. Mae'r holl benderfyniadau hyd yma ac yn y dyfodol wedi cael eu cefnogi gan arbenigedd allanol ac yn seiliedig ar yr opsiynau sy'n dangos y gwerth gorau am arian.

Mae'r gyllideb hon yn parhau i gael ei neilltuo i ganiatáu i'r prosiect symud ymlaen yn annibynnol ar weithgareddau 'busnes fel arfer' y Comisiwn a chydag ymrwymiad i ddychwelyd unrhyw gyllid nas defnyddiwyd iGronfa Wrth Gefn Cymru – fel sy'n digwydd hefyd gyda chyfanrwydd cyllideb y Comisiwn.

Mae'r gyllideb hon yn gyson â Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) y Comisiwn, ac mae'n sefydlu egwyddorion o ran adnoddau ac egwyddorion ariannol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Nod y MTRF yw cyfyngu ar dwf y gellir ei reoli a rheoli twf na ellir ei reoli o fewn yr adnoddau sylfaenol presennol. Mae hefyd yn ceisio amlygu pwysau cyllidebol yn y dyfodol ac yn cynnig strategaethau ar gyfer eu rheoli.

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys dyfarniad cyflog o 3.5% yn 2027-28 ac yna dwy flynedd o ddyfarniadau cyflog o 3%. Ceisiodd y Comisiwn gytuno ar gytundeb cyflog aml-flwyddyn gydag Ochr Undebau Llafur (TUS) y Comisiwn, a gafodd ei wrthod. Y rhagdybiaeth gynllunio bresennol ar gyfer cyflogau staff y Comisiwn yn y dyfodol yw ei bod yn adlewyrchu Cylch Cyflog Sector Cyhoeddus Cymru, sef 3.5% ar gyfer 2027-28 ac yna amcangyfrifiad o 3% ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn gwneud darpariaeth, fel arfer, ar gyfer Cronfa Prosiectau'r Comisiwn. Mae hyn ar wahân i gostau rhedeg y Comisiwn o ddydd i ddydd ac i raddau helaeth mae'n ariannu prosiectau seilwaith untro i gynnal a chadw'r ystad a'r systemau TGCh yn ogystal â phrosiectau eraill ar wahân na ellir talu amdanynt o gyllidebau gweithrediadol, megis meddalwedd arbenigol newydd. Mae'r Gronfa Prosiectau wedi parhau i fod yn £2 miliwn ar gyfer 2027-28, i gydnabod gwerth cyffredinol prosiectau allweddol sydd ar y gweill y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'w hystyried o ran cyllid.

3. Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan y Comisiwn i nodi pwysau costau yn y dyfodol gan allu rhagweld digon i'w rheoli. Gallai hyn fod drwy ailgyfeirio adnoddau, newid a rheoli effeithlonrwydd neu, ar yr eithaf, gwneud achos cydlynol gyda thystiolaeth dros ofyn am adnoddau ychwanegol. Mae'r MTRF yn flaenolwg tair blynedd sy'n hysbysu rhanddeiliaid ac yn hwyluso cynllunio priodol. Dyma'r ail gyllideb a luniwyd o dan y fframwaith hwn.

Y rhagdybiaeth ar gyfer y tymor canolig yw y bydd gofynion ariannu'r Comisiwn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Felly, mae angen i'r Comisiwn ddeall a lliniaru'r bwlch rhwng y cyllid a ddisgwylir ar hyn o bryd a'i lefel wirioneddol o angen, er mwyn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a chefnogi'r anghenion craidd, tra hefyd yn addasu ei gynlluniau adnoddau i gyflawni effeithlonrwydd a, lle bo angen, arbedion.

Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r Comisiwn ddangos yn glir beth sy'n sbarduno cynnydd yn ei gyllidebau (yn hytrach na chreu argraff bod llinellau cyllideb 'busnes fel arfer' yn cael eu tyfu'n flynyddol gan swm chwyddiant).

Mae'r Fframwaith yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu. Fframwaith cyllidebol treigl tair blynedd yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'n nodi ystod fanwl o senarios gofynion o ran adnoddau a phwysau o ran costau dros y tair blynedd nesaf. Yna mae'n gosod sail resymol a realistig ar gyfer gwaith cynllunio cyllideb dros y tymor canolig ('Senario Twf a Reolir').

Fel egwyddor, mae 'Sefydliad Targed' wedi'i ddiffinio (ar gyfer nifer y staff parhaol) i sicrhau bod adnoddau pobl y Comisiwn yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn yr amlen adnoddau sydd ar gael. Mae'n gweithredu fel arf rheoli costau strategol ac yn llywio'r gwaith o reoli adnoddau mewn ffordd ystwyth, effeithiol ac effeithlon. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth (rheolwyr cyllideb) wedi darparu mewnbwn ac adborth strwythuredig ynghylch sut y gall y Comisiwn gyfeirio adnoddau yn briodol at anghenion sefydliadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newid i Senedd fwy o faint ac mae'n gwrthsefyll llunio'r adnoddau presennol mewn modd llinol.

Mae'r gyllideb hon yn ceisio rhoi'r gyllideb weithredol mewn 'cyflwr sefydlog' yn dilyn y cynnydd yn nifer yr Aelodau ac mae'n cael ei meincnodi yn erbyn y datchwyddwr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, sef mesur economaidd safonol i adlewyrchu tueddiadau craidd yn y sector cyhoeddus ehangach, fel canllaw i reoli pwysau twf.

4. Staffio

Mae’r rhan fwyaf o wariant refeniw gweithredol y Comisiwn yn ymwneud â chostau staff (~70%). Ceir ymrwymiad parhaus i ddatblygu a chynnal gweithlu amrywiol a medrus iawn i gefnogi Busnes y Senedd.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2027-28, os bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn cael ei chymeradwyo gan y Senedd, bydd dyfarniad cyflog o 3.5% ac yna dwy flynedd o 3%, gan nodi mai'r rhagdybiaeth yw nawr y bydd y dyfarniad cyflog yn adlewyrchu'r cylch cyflog yn 2028-29 a 2029-30.

Mae'r gyllideb hefyd yn adlewyrchu gostyngiad mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwyr o 28.97% i 22.32%.

Roedd nifer y staff yn y sefydliad ar gyfer y model busnes gweithredol blaenorol wedi'i gadw ar lefel 2024-25, fodd bynnag, mae'r gyllideb sylfaenol bellach hefyd yn cynnwys y staff ychwanegol i gefnogi'r Senedd estynedig. Mae 75 o staff sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd wedi'u cynnwys yn y sefydliad ar gyfer 2027-28, gan nodi bod 8 o'r swyddi hyn yn dal i fod yn ddibynnol ar benderfyniadau busnes y Senedd i'w gwneud yn nhymor yr hydref.

Y dull o staffio o ran Diwygio’r Senedd yw meithrin capasiti fesul cam, gan ddefnyddio proses sy'n seiliedig ar gyfrannau i sicrhau bod swyddi'n cael eu hychwanegu lle mae tystiolaeth ar gyfer yr angen, a'i fod yn alinio â'r model gweithredu sy'n datblygu ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae hyn wedi caniatáu i'r Comisiwn ymateb yn gyntaf i feysydd lle disgwylir i'r cynnydd mewn Aelodau greu gweithgarwch clir sy'n gysylltiedig â nifer yr Aelodau, megis pwysau ychwanegol ar y Cyfarfod Llawn, pwyllgorau, cymorth i Aelodau a phwysau galluogi'r gwasanaeth, tra'n cadw hyblygrwydd i fynd i'r afael â gofynion eraill sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt ddod yn gliriach. Mae'r dull ar sail cyfrannau hefyd yn rhoi cyfle i brofi rhagdybiaethau, monitro galw ac addasu'r cyflenwad staffio trwy gynllunio gwasanaethau, gan gynnwys lle mae anghenion yn codi nad ydynt yn cael eu gyrru gan nifer yn unig, megis rhagor o ofynion ynghylch diogelwch Aelodau, gwytnwch, mynediad a chymorth.

Mae'r gyllideb staffio wedi tanwario yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Felly, mae lefel y tanwariant tybiedig wedi'i chynyddu o fewn y Gyllideb Ddrafft hon i adlewyrchu hynny, gan nodi bod lefelau staffio wedi gweld lefelau uchel o drosiant wrth i'r sefydliad fynd trwy gyfnod o addasu i gefnogi Senedd fwy o faint ond mae disgwyl iddynt sefydlogi erbyn hyn.

Mae Strategaeth Pobl Comisiwn y Senedd yn ganolog i gyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol, gan sicrhau bod gennym weithlu ystwyth sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau cywir i ddarparu gwasanaethau eithriadol i fusnes y Senedd a'i Haelodau. Ategir y strategaeth gan ein gwerthoedd sefydliadol, sef parch, angerdd, balchder a chydweithio fel 'Un Tîm'.

Mae'r Cynllun Gweithlu (o fewn y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig) yn ceisio rheoli ac addasu ein cyflenwad staffio yn y tymor canolig i'r tymor hwy i gyd-fynd ag adnoddau a sgiliau i'r meysydd sydd eu hangen. Bydd hyn yn gofyn am ymagwedd soffistigedig ac aeddfed at fapio sgiliau ac ystwythder wrth recriwtio a lleoli staff. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni symud i Senedd fwy ac esblygu ein gofynion staffio ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg ac yn benodol, defnyddio deallusrwydd artiffisial i ategu ein hadnoddau.

5. Cyllidebau nad ydynt yn rhai staff

Mae'r mwyafrif helaeth o gyllidebau nad ydynt yn rhai staff o fewn y Comisiwn yn gontractiol, gan gynnwys rhent, ardrethi, rheoli cyfleusterau a chostau sy'n gysylltiedig â TGCh.

Mae codiadau cytundebol sy'n gysylltiedig â CPI ac RPI yn cael eu cynnwys yn y llinellau cyllideb nad yw'r Comisiwn yn gallu eu rheoli na'u rheoli y tu allan i bwyntiau trafod contractau, h.y. pan fydd contractau'n dod i ben ac y gellir eu haildendro. Mae arbedion wedi'u gwneud lle bo'n bosibl, ond mae'r cwmpas i wneud hynny'n gyfyngedig.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cylchoedd contract i drafod y telerau cytundebol gorau posibl i'r Senedd, mewn termau ariannol ac anariannol i ddarparu'r gwerth gorau posibl am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Yn amodol ar benderfyniadau gan y Comisiwn a ddisgwylir yn ddiweddarach yn 2026, bydd gwaith helaeth ar Dŷ Hywel yn dechrau yn ystod blwyddyn ariannol 2027-28. Yn ystod y cyfnod hwn, y dybiaeth yw y bydd defnyddwyr yr adeilad yn cael eu symud i adeilad arall. Dangosir costau'r cynllun 'adleoli' hwn o fewn y gyllideb ar gyfer Bae 32; fodd bynnag, mae'r gyllideb weithredol sylfaenol hefyd yn adlewyrchu arbedion sy'n gysylltiedig â pheidio ag ysgwyddo costau rhedeg ar gyfer Tŷ Hywel yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, disgwylir i ardrethi, costau cynnal a chadw a chyfleustodau i gyd leihau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae cyllidebau nad ydynt yn gyllidebau staff (gan gynnwys y gronfa prosiectau) wedi lleihau 21.17%. Mae'r gostyngiad yn cael ei yrru'n bennaf gan y ffaith bod cyllidebau nad ydynt yn staff a dybiwyd yn flaenorol eu bod yn ofynnol ar gyfer Busnes ychwanegol y Senedd wedi'u haddasu i lawr i adlewyrchu'r rhagdybiaethau diweddaraf. Ni fydd gofynion cyfalaf i ddarparu ar gyfer 36 o Aelodau newydd a Staff Cymorth yn cael eu hailadrodd ar gyfer 2027-28. At hynny, y disgwyl yw y bydd arbedion sylweddol ar gostau rhedeg Tŷ Hywel yn ystod y gwaith i adnewyddu'r adeilad.

6. Diwygio'r Senedd

Mae cyllideb 2027-28 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau o fewn y gyllideb sylfaenol ar gyfer y Comisiwn.

Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae penderfyniadau i'w gwneud o hyd ynglŷn ag amserlen busnes y Senedd a allai ddylanwadu ar sut mae'r strwythur staffio terfynol yn cael ei sefydlu i ddarparu cymorth.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn tybio y bydd un Pwyllgor parhaol ychwanegol ac un sesiwn Cyfarfod Llawn ychwanegol bob tair wythnos.

Bydd y costau yn erbyn y llinellau cyllideb hyn yn cael eu monitro, yn enwedig pan fo adnoddau ychwanegol wedi'u defnyddio er mwyn llywio cyflwyniadau cyllidebol yn y dyfodol a byddant yn cael eu haddasu lle bo angen gan ddefnyddio'r broses flynyddol o gynllunio gwasanaethau.

At ei gilydd, mae 75 o swyddi wedi'u hymgorffori yn y llinell sylfaen mewn meysydd gwasanaeth sydd wedi gweld cynnydd yn eu llwyth gwaith wedi'i ysgogi gan gynnydd yn nifer yr Aelodau.

Mae costau nad ydynt yn rhai staff ar gyfer y canlynol:

- Costau meddalwedd, ffôn a band eang ychwanegol ar gyfer 36 Aelod ychwanegol;
- Darpariaeth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant i Aelodau i'w cefnogi yn eu rolau;
- Galw uwch ar y gwasanaethau cyfieithu

Ni fydd y symiau cyllidebol hyn yn cael eu dyrannu oni bai a hyd nes y gellir dangos tystiolaeth glir o'r angen.

Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb sy'n ymwneud ag ehangu'r Senedd:

Tabl 1

	2027-28 £000	**2028-29 £000**	**2029-30 £000**
Staff	£4,575	£4,713	£4,854
Heb fod yn gysylltiedig â staff	£441	£447	£454
Cyfanswm	**£5,016**	**£5,160**	**£5,308**

Mae costau staff wedi'u haddasu ar gyfer dyfarniadau cyflog disgwyliedig ar gyfer 2028-29 a 2029-30.

7. Bae 32

Bae 32 yw prosiect mwyaf cymhleth erioed y Comisiwn sy'n ceisio sicrhau swyddfeydd priodol i Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn y tu hwnt i derfyn prydles bresennol Tŷ Hywel yn 2032. Bydd y prosiect yn cwblhau'r cam cyn-ddatblygu ym mis Rhagfyr 2026, i gwblhau'r dyluniad, llunio amcangyfrifon cost mwy cadarn ac ar ôl cael ei brofi yn erbyn gofynion y prosiect bydd yn llywio'r Achos Busnes Llawn. Bydd y gwaith hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen ar y Comisiwn i ymrwymo i unrhyw gontract cytundeb datblygu ar gyfer gwaith.

Mae cyllideb 2027-28 wedi'i datblygu ar adeg pan mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n gyflym a chyn i'r holl benderfyniadau sy'n effeithio ar y proffil cost terfynol gael eu gwneud. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau sydd ar gael o gostau y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo yn 2027-28, gan gynnwys costau tîm prosiect, cyngor proffesiynol, datblygu dylunio, adleoli a chamau cychwynnol cyflawni.

Mae'n tybio bod holl ddefnyddwyr yr adeilad yn cael eu hadleoli i adeiladau eraill, gan gadw rhan o ‘Floc C’ ar gyfer gwasanaethau hanfodol fel Diogelwch, rheoli cyfleusterau ac arlwyo. Rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer yr achos gwaethaf un yw hyn gan nad yw wedi’i benderfynu a fydd modd goddef lefel yr aflonyddwch, y sŵn a'r dirgryniad yn ystod cyfnod pan mae'r Senedd yn gweithredu. Roedd y cais cychwynnol yn cynnig adleoli defnyddwyr yr adeilad yn rhannol i swyddfeydd eraill gyda'r rhai sy'n weddill yn cael eu symud o amgylch yr adeilad yn unol â'r amserlen o waith.

Y disgwyliad yw y bydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei gymeradwyo gan y Comisiwn ym mis Rhagfyr ac ar ôl hynny bydd gwaith yn dechrau i baratoi swyddfeydd amgen, a disgwylir i staff ac Aelodau fod wedi symud allan o Dŷ Hywel erbyn mis Medi 2027. Gan fod y gyllideb ar gyfer Bae 32 wedi'i chlustnodi, os na fydd y prosiect yn symud ymlaen, bydd y gyllideb yn cael ei dychwelyd.

Mae amserlen y prosiect yn dal i gael ei mireinio ond ar hyn o bryd mae iddo’r cerrig milltir allweddol canlynol (yn seiliedig ar gynllun adleoli ar raddfa fwy):

- Gosod y swyddfeydd amgen: Ionawr 2027
- Bydd staff y Comisiwn yn gweithio o adeilad amgen erbyn haf 2027
- Bydd yr Aelodau'n gweithio o adeilad amgen erbyn haf / hydref 2027

- Gwaith adeiladu Tŷ Hywel yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2029-30
- Defnyddwyr yr adeilad yn dychwelyd i weithio yn Nhŷ Hywel yn 2030

Y rhagdybiaethau cyfredol yw y bydd y costau gosod ac adeiladu sylweddol yn syrthio yn bennaf yn 2027-28 a 2028-29, gyda dyddiad cwblhau yn ystod 2029-30. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd gan y Comisiwn yr opsiwn i ymrwymo i gytundeb 'Stribed Incwm' neu brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel yn llwyr. Byddai'r gost hon yn cael ei hysgwyddo yn 2030-31 a bydd ganddo oblygiadau cyfalaf y naill ffordd neu'r llall (oherwydd gofynion IFRS16) a bydd y penderfyniad yn cael ei gynnwys yn yr Achos Busnes Llawn a fydd yn ei dro yn llywio'r Cytundeb Datblygu.

Felly, mae'r Comisiwn yn defnyddio dull doeth a thryloyw trwy gynnal darpariaeth Ffyrdd o Weithio wedi'i neilltuo ar gyfer Bae 32, ar wahân i gyllidebau busnes fel arfer. Mae hyn yn caniatáu i gostau'r prosiect gael eu nodi'n glir, eu rheoli trwy lwybrau llywodraethu priodol, a'u dychwelyd os nad oes eu hangen. Dros yr haf, bydd swyddogion yn parhau i ddiweddaru'r model costau, profi fforddiadwyedd a goblygiadau gwerth am arian, ac ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru, yr Aelodau a'r grwpiau pleidiau fel bod y gyllideb a gaiff ei gosod yn hydref 2026 mor gywir a thryloyw â phosibl, gan gydnabod y gallai rhywfaint o ansicrwydd barhau nes bod penderfyniadau'r Achos Busnes Llawn a'r Cytundeb Datblygu yn cael eu cwblhau.

Mae'r gyllideb yn cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Bydd y Comisiwn yn creu dau Ased Hawl i Ddefnyddio sy'n ymwneud â gofod prydles allanol, ac un ohonynt yn wariant cyfalaf yn 2027-28;
- Bydd tâl am ddadfeiliadau ar ddiwedd y ddwy brydles i ddychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol;
- Bydd y contractwr yn cwblhau'r gwaith gosod mewnol ar Dŷ Hywel;

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

Tabl 2

	2027-28 £000	**2028-29 £000**	**2029-30 £000**
Costau staff	£259	£276	£284
Rheoli rhaglen a rheoli newid	£299	£313	£168
Dylunio ac ymgynghori technegol	£1,073	£1,198	£884
Masnachol, cost a chyfreithiol	£321	£853	£105
Adeiladu, gosod ac asedau'r gweithle	£83	£6,198	£9,262
Cydymffurfio, sicrwydd a chynhwysiant	£524	£2,038	£281
Adeilad dros dro a gweithrediadau	£11,100	£5,800	£7,700
Addasiadau IFRS 16-	(£2,300)	(£2,300)	(£2,100)
Cyfanswm	**£11,359**	**£14,376**	**£16,584**

8. Cronfa Prosiectau

Mae'r Comisiwn yn cynnal Cronfa Prosiectau er mwyn ariannu gwariant y tu hwnt i'r cyllidebau gwasanaeth dirprwyedig gan gynnwys adnewyddu cylch bywyd ar gyfer seilwaith TGCh, darlledu ac ystadau.

Caiff y Gronfa Prosiectau ei rheoli o ddydd i ddydd gan y Grŵp Rheoli Prosiectau, gyda'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud yr holl benderfyniadau. Dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Ariannol gyda chefnogaeth gan banel o bob rhan o'r Comisiwn, mae'r Grŵp Rheoli Prosiectau yn gyfrifol am wneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol sy'n sicrhau bod portffolio'r prosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn, yn cael adnoddau priodol, yn rhoi gwerth am arian a bod prosiectau'n cael eu cyflwyno i amserlenni a manyleb y cytunwyd arnynt. Mae'r dull hwn yn cyflawni:

- gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- llai o risg; ac
- yn cyflawni ein hamcan strategol Cynaliadwyedd.

Mae'r Grŵp Rheoli Prosiect yn argymell i'r Bwrdd Gweithredol pa brosiectau y dylid eu blaenoriaethu, yn monitro i ba raddau y cânt eu cyflawni, ac yn defnyddio dull ystwyth o ymateb i newidiadau a phroblemau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r strategaeth ar gyfer rheoli cyllid wedi'i nodi mewn Strategaeth Bortffolio sy'n nodi:

- gweledigaeth a nodau y cytunwyd arnynt ar gyfer portffolio'r prosiect;
- yr ysgogiadau gwerth a ddefnyddir i lywio blaenoriaethu'r portffolio; a'r
- prif risgiau, amlen adnoddau ac amseriadau.

Bydd y strategaeth hon yn hwyluso'r dyraniad a, lle bo'n berthnasol, ail-bwrpasu neu ail-flaenoriaethu cyllid i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau i sicrhau gwerth am arian.

Nododd proses y Fframwaith Adnoddau gyfnod o bwysau sylweddol a pharhaus ar y Gronfa Prosiectau yn 2025-26 i 2027-28 oherwydd nifer yr eitemau a adnewyddir yn sgil cylch bywyd gyda goblygiadau cost sylweddol yn dod yn sgil

hynny, yn ogystal â'r cylch gwaith mwy arferol. Mae prosiect Bae 32 wedi lleihau'r pwysau ar y Gronfa Prosiectau ond nid wedi dileu hyn yn llwyr. Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw i ymestyn bywyd defnyddiol gweithfeydd a seilwaith mawr lle bo hynny'n bosibl, a bydd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb y flwyddyn o offer a chyfarpar sy'n dod tuag at ddiwedd ei oes weithredol i asesu a oes modd ymestyn hyn. Y prosiectau allweddol a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer eu blaenoriaethu yn ystod 2027-28 yw:

- Seilwaith TGCh;
- Uwchraddio camerâu yr ystafelloedd pwyllgora;
- Caledwedd TGCh – adnewyddu dyfeisiau'n barhaus;
- Effaith adnewyddu contractau uwchlaw lefelau cyllideb presennol, er enghraifft Cyfieithu, Arlwyo a Rheoli Cyfleusterau a ariennir yn y lle cyntaf o'r Gronfa Prosiectau cyn cael eu hychwanegu at y llinell sylfaen yn y blynyddoedd dilynol.

9. Cyllidebau nad ydynt yn rhai arian parod

Roedd cyllidebau y Comisiwn nad ydynt yn rhai arian parod yn ymwneud â phum maes penodol:

- Costau dibrisiant ar gyfer asedau sefydlog y Comisiwn
- Costau dibrisiant / amorteiddiad ar gyfer asedau Hawl i Ddefnyddio y Comisiwn o dan IFRS 16 (Gwariant a Reolir yn Flynyddol gan Refeniw; a gynhwyswyd yn flaenorol o fewn 'Dibrisiant' yn y gyllideb)
- Taliadau llog sy'n gysylltiedig ag Asedau Hawl i Ddefnyddio / Rhwymedigaethau Prydles o dan IFRS 16
- Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau sy'n gysylltiedig â'r brydles/prydlesi ar unrhyw swyddfeydd dros dro sydd eu hangen yn ystod cyfnod y gwaith adnewyddu ar Dŷ Hywel (Gwariant Cyfalaf a Reolir yn Flynyddol)
- Y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (Cost Cyllid Pensiwn) (Gwariant Refeniw a Reolir yn Flynyddol)

10. Cynaliadwyedd

Comisiwn y Senedd oedd un o'r sefydliadau cyhoeddus cyntaf i lunio strategaeth yn manylu ar ymateb arfaethedig i'r Argyfwng Hinsawdd a chynllun i ddod yn garbon niwtral net. Mae gwaith wedi symud ymlaen yn dda i sicrhau'r prif elfennau y gellir eu cyflawni yn y Strategaeth, gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd a chysylltiad â'r rhwydwaith gwresogi. Bydd 2027-28 yn cynnwys diweddariad canol tymor o'r Strategaeth i adlewyrchu newidiadau i'r sefydliad a'r sefyllfa garbon genedlaethol.

Un o dybiaethau cynllunio allweddol y prosiect Bae 32 yw y bydd Tŷ Hywel o safon ragorol o ran cynaliadwyedd ar ôl cwblhau'r gwaith. Rydym yn pennu safonau BREEAM Excellence ac Adeiladau Carbon Sero Net y DU, gyda'r ail o'r rhain yn rhoi'r dyluniad yn y maes arfer gorau ar gyfer swyddfeydd yn y sector cyhoeddus.

Mae'r holl waith ar adeilad y Senedd yn cael ei gwblhau gyda phwyslais ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. Mae'r Comisiwn bellach wedi ymuno â'r rhwydwaith gwresogi ardal a fydd yn lleihau costau a'n hôl troed carbon, yn ogystal â'n dibyniaeth ar nwy.

Mae'r gwaith o gyflwyno goleuadau LED bron wedi'i gwblhau erbyn hyn. Ynghyd â chyflwyno nifer o arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â'r system rheoli adeiladau (BMS), ac ymdrechion i leihau'r defnydd o wresogi a chyflyru aer, mae'r galw am ynni wedi lleihau. Er bod costau nwy a thrydan wedi codi'n sylweddol i'r Comisiwn yn 2023 a 2024, mae gostyngiad graddol yn digwydd. Fodd bynnag, mae prisiau'n parhau i fod yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol ac mae prisiau yn y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr, yn enwedig o ystyried y gwrthdaro yn Iran.

Mae'r Comisiwn yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf iddo'i hun. Am y rheswm hwn, cynhelir system rheoli amgylchedd. Caiff ei archwilio'n allanol i weld a yw'n cydymffurfio ag ISO14001. Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y Deyrnas Unedig, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

11. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Bydd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer y Seithfed Senedd yn canolbwyntio ar gefnogi dealltwriaeth y cyhoedd o'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Diwygio'r Senedd a helpu pobl i ddeall y trefniadau seneddol newydd yn dilyn etholiad 2026. Yn ystod blwyddyn gyntaf lawn y Seithfed Senedd, y flaenoriaeth fydd adeiladu ar lefelau ymwybyddiaeth presennol o'r sefydliad, gan barhau i wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut mae'r Senedd yn gweithio, rôl yr Aelodau, a'r ffyrdd y gall pobl ymgysylltu â busnes seneddol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod, er bod ymwybyddiaeth o'r Senedd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, fod lefelau dealltwriaeth, cysylltiad a chyfranogiad yn amrywio ar draws gwahanol gymunedau a grwpiau demograffig. Felly, bydd gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn canolbwyntio ar barhau i ddarparu gwybodaeth glir, hygyrch a diduedd am waith y Senedd a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ymgysylltu â'i phrosesau democrataidd a chyfrannu atynt.

Bydd cyllid yn helpu i gyflawni rhaglen gydlynol o weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu ledled Cymru, gyda'r bwriad o sicrhau bod gwybodaeth am y Senedd yn hygyrch a pherthnasol, ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu digidol, adnoddau gwybodaeth i'r cyhoedd, ymgysylltu addysgol, ymgysylltu ag ymwelwyr, allgymorth cymunedol a chyfleoedd i gymryd rhan ym musnes y Senedd.

Caiff sylw arbennig ei roi i helpu pobl i ddeall goblygiadau ymarferol y trefniadau seneddol newydd, gan gynnwys gweithrediad y Senedd estynedig, y model etholaeth chwe Aelod a'r gwahanol ffyrdd y gall unigolion a chymunedau ymgysylltu â'u cynrychiolwyr etholedig a thrafodion seneddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen parhaus am wybodaeth glir wrth i'r trefniadau newydd fwrw eu gwreiddiau.

Bydd y strategaeth hefyd yn parhau i gefnogi gwaith ymgysylltu â grwpiau sydd yn draddodiadol wedi bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn sefydliadau democrataidd, gan gynnwys pobl ifanc a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. Drwy raglenni addysg, Senedd Ieuenctid Cymru a gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu, bydd y Comisiwn yn ceisio lleihau rhwystrau i gyfranogiad a sicrhau y gall ystod ehangach o leisiau gyfrannu at waith y Senedd.

Bydd swyddogaeth gref o ran tystiolaeth a mewnwelediad yn sail i'r strategaeth. Bydd gwaith ymchwil, gwerthuso a monitro perfformiad parhaus yn cael ei

ddefnyddio i asesu effeithiolrwydd, deall anghenion cynulleidfaoedd a sicrhau y caiff adnoddau eu targedu a'u defnyddio'n briodol. Bydd hyn yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn helpu i ddangos gwerth am arian.

At ei gilydd, bydd y gyllideb cyfathrebu ac ymgysylltu yn cefnogi amcan strategol y Comisiwn o roi dinasyddion wrth wraidd democratiaeth seneddol. Bydd yn helpu i sicrhau bod y Seithfed Senedd yn hygyrch, yn ddealladwy ac yn berthnasol i bobl ledled Cymru, gan gefnogi cyfranogiad gwybodus a chryfhau dealltwriaeth y cyhoedd o'r sefydliad a'i waith.

12. Aelodau

Mae cyllidebau ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau wedi'u neilltuo; caiff unrhyw danwariant sy'n codi ei ddychwelyd iGronfa Wrth Gefn Cymru, naill ai drwy Gyllidebau Atodol yn ystod y flwyddyn neu drwy'r alldro diwedd blwyddyn a adroddir. Y cyllidebau perthnasol yn y categori hwn yw:

- Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;
- Y gyllideb ar gyfer costau clercio, gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Safonau;
- Y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EF (Cost Cyllid Pensiwn).

Mae cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn seiliedig ar amcangyfrif o gost lawn bosibl y Penderfyniad, gydag addasiad tuag i lawr i gydnabod ei bod yn annhebygol mai dyma fydd y senario cyffredinol. Mae'r addasiad yn adlewyrchu patrymau gwariant hanesyddol lle bo modd, gan nodi, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nad yw patrwm gwariant y Seithfed Senedd wedi'i sefydlu eto. Mae proses y gyllideb atodol yn caniatáu ar gyfer dychwelyd cyllid pellach yn ystod y flwyddyn lle bo'n briodol.

Mae'r gyllideb yn tybio dyfarniad cyflog (sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion; ASHE) o 4% a chynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 3% ar gyfer lwfansau.

Mae gan y Bwrdd ei hun dîm clercio i gefnogi ei waith a chyllideb i ymgymryd â gwaith ymchwil a/neu brynu cymorth ymgynghori.

Caiff ffioedd y Comisiynwyr Safonau eu talu drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Comisiwn yn darparu un aelod o staff i gefnogi eu gwaith, yn ogystal â chyllideb gymedrol ar gyfer gwariant sy'n angenrheidiol o ran cyflawni eu dyletswyddau. Gall cynnydd yn nifer yr Aelodau arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith ac felly yn lefel y cymorth sydd ei angen. Yn yr un modd, bydd gan y Comisiynydd newydd y pŵer i gychwyn ei ymchwiliadau ei hun. Ers mis Ebrill 2026, mae rhwymedigaethau newydd hefyd o ran y Gymraeg ar swyddfa'r Comisiynydd Safonau. Ar gyfer 2027-28, mae'r dybiaeth gyllidebol yn parhau'r un fath ag yn

2026-27, gan ddarparu ar gyfer un aelod o staff cymorth a chyllideb resymol ar gyfer costau eraill, er enghraifft cyngor cyfreithiol, gan fod y lefel hon o gyllideb wedi bod yn fwy na digonol hyd yn hyn. Os bydd yr angen yn newid yn sylweddol, bydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau newydd (sydd i fod i ddechrau yn y swydd ym mis Ebrill 2027) i bennu sut caiff hyn ei adlewyrchu mewn cyllidebau yn y dyfodol.

13. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer y Senedd yn 2027-28, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

Tabl 1: Cyllideb 2027-28 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion

Gofynion y Senedd	**2027-28 £000**
Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn cysylltiad â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn. Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd.	£109,296 (tabl 2)

Gofynion y Senedd	**2027-28** **£000**
Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd	£85 (tabl 8)
Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn ac mewn cysylltiad â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion llai derbyniadau disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill.	£104,485 (tabl 3)

Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

Tabl 2: Trosolwg o'r Gyllideb

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn				
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4)	£34,031	£37,463	£38,587	£39,745
Llety a chyfleusterau (Tabl 5)*	£6,399	£4,617	£4,724	£4,834
Costau TGCh (Tabl 6)*	£3,534	£3,962	£4,042	£4,110
Costau eraill (Tabl 7)*	£2,136	£2,234	£2,256	£2,269
Cyfanswm Gwariant Refeniw	**£46,100**	**£48,276**	**£49,609**	**£50,958**
Cyfanswm Incwm (Tabl 8)	(£85)	(£85)	(£85)	(£85)
Gwariant Cyfalaf	£500	£1,500	£1,500	£1,500
Cronfa brosiectau	£1,500	£500	£500	£500
Cyfanswm yr Adnoddau Gweithredol	**£48,015**	**£50,191**	**£51,524**	**£52,873**
Taliadau Llog	£600	£400	£242	£9
Taliadau Dibrisiant	£5,027	£5,750	£8,850	£11,950
Taliadau Dibrisiant – Ased Hawl i'w Defnyddio	£0	£3,200	£4,300	£4,300
Cyllidebau Prosiect wedi'u Clustnodi				
Diwygio'r Senedd	£6,345	£0	£0	£0
Bae 32	£3,097	£11,359	£14,376	£16,584
Cyfanswm y Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn	**£63,084**	**£70,900**	**£74,992**	**£81,416**
Gwariant sy'n Gysylltiedig ag Aelodau				
Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9) (yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau)	£33,971	£37,676	£38,843	£39,992
Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau (Tabl 10)	£110	£112	£115	£118
Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (Tabl 11)	£607	£607	£622	£639
Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad	£4,500	£0	£0	£1,000
Costau Cyllid Pensiwn Aelodau	£400	£0	£0	£0
Cyfanswm Cyllideb Comisiwn y Senedd	**£102,672**	**£109,296**	**£114,573**	**£123,166**

Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

Gofyniad arian parod net	**2027-28** **£000**
Gofyniad refeniw net yr Aelodau	£37,676
Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	£112
Costau cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol	£607
Gofyniad refeniw net y Comisiwn	£56,300
Gofyniad cyfalaf net	£11,400
Gwariant a reolir yn flynyddol	£3,200
Is-gyfanswm	**£109,296**
Addasiadau	
Dibrisiant	(£5,750)
Taliadau llog / addasiadau cyfalaf yn ymwneud ag IFRS 16	(£3,600)
Taliadau rhent yn ymwneud ag IFRS 16	£4,539
Newidiadau mewn darpariaethau	£0
Is-gyfanswm	**(£4,811)**
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru	**£104,485**

Atodiad 2: Manylion y gyllideb

Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Costau staff y Comisiwn	£35,049	£34,405	£35,437	£36,500
Amcangyfrif swydd wag	(£1,018)	(£1,517)	(£1,563)	(£1,609)
Costau staff Diwygio'r Senedd*		£4,786	£5,075	£5,229
Amcangyfrif swydd wag Diwygio'r Senedd		(£211)	(£363)	(£375)
Cyfanswm	**£34,031**	**£37,463**	**£38,587**	**£39,746**

*Cafodd costau staff Diwygio'r Senedd eu clustnodi yn ystod 2026-27.

Tabl 5: Dadansoddiad o Gostau Llety a Chyfleusterau

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Rhent ac ardrethi gan gynnwys maes parcio (wedi'i addasu ar gyfer IFRS 16)	£1,960	£1,133	£1,149	£1,165
Cynnal a chadw a gwaith	£1,128	£647	£647	£647
Diogelwch	£1,016	£1,059	£1,099	£1,141
Cyfleustodau	£1,039	£526	£542	£558
Glanhau	£698	£676	£696	£717
Arlwyo	£453	£493	£508	£523
Rhentu llungopiwyr	£40	£40	£40	£40
Dodrefn a Gosodiadau	£65	£43	£43	£43
Cyfanswm	**£6,399**	**£4,617**	**£4,724**	**£4,834**

Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Gwasanaethau TGCh	£727	£777	£784	£787
Darlledu	£964	£982	£982	£982
Trwyddedu a Chynnal a Chadw	£1,743	£2,103	£2,166	£2,231
Refeniw a Defnyddiau Traul	£100	£100	£110	£110
Cyfanswm	**£3,534**	**£3,962**	**£4,042**	**£4,110**

Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Hyfforddiant a datblygu	£312	£367	£367	£367
Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth	£308	£309	£319	£319
Gwasanaethau iaith ar gontract allanol	£302	£303	£303	£303
Costau Adnoddau Dynol eraill	£175	£177	£179	£181
Cyhoeddiadau	£148	£154	£154	£154
Archwilio	£135	£142	£142	£142
Yswiriant a chostau cyfreithiol	£155	£138	£147	£156
Teithio a chynhaliaeth staff	£108	£119	£119	£119
Teithio a chynhaliaeth arall	£95	£117	£117	£117
Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol	£73	£80	£81	£82
Cyngor arbenigol	£71	£71	£71	£71
Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio	£58	£58	£58	£58
Ymgynghori	£50	£50	£50	£50
Ymgysylltu academaidd	£30	£30	£30	£30
Lletygarwch	£24	£29	£29	£29
Fetio	£22	£24	£24	£24
Gwisgoedd a dillad	£15	£15	£15	£15
Eitemau eraill <£20k	£55	£51	£51	£51
Cyfanswm	**£2,136**	**£2,234**	**£2,256**	**£2,269**

Tabl 8: Dadansoddiad o Incwm

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Gwerthiannau – siop y Senedd	(£15)	(£15)	(£15)	(£15)
Llety – incwm rhentu	(£60)	(£60)	(£60)	(£60)
Incwm arall	(£10)	(£10)	(£10)	(£10)
Cyfanswm	**(£85)**	**(£85)**	**(£85)**	**(£85)**

Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau Aelodau a'r costau cysylltiedig

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau	£11,655	£12,182	£12,547	£12,924
Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau	£20,869	£21,514	£22,159	£22,824
Lwfansau a chostau swyddfa	£5,491	£5,230	£5,387	£5,495
Tanwariant disgwyliedig	(£4,044)	(£1,250)	(£1,250)	(£1,250)
Cyfanswm	**£33,971**	**£37,676**	**£38,843**	**£39,992**

Tabl 10: Cyllideb Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Costau staff	£84	£86	£89	£92
Cyngor Cyfreithiol	£26	£26	£26	£26
Cyfanswm	**£110**	**£112**	**£115**	**£118**

Tabl 11: Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol

Pennawd y Gyllideb	2026-27 £000	2027-28 £000	2028-29 £000	2029-30 £000
Costau staff	£527	£528	£544	£560
Ffioedd a Threuliau	£47	£47	£47	£47
Costau a threuliau eraill	£32	£32	£31	£31
Cyfanswm	**£607**	**£607**	**£622**	**£639**




MEMBERS' ENTRANCE
Senedd Cymru
Welsh Parliament